

Ysgol Bro Alun
Rhodfa Delamere
Gwersyllt
Wrexham
LL11 4NG
Ffôn: 01978 269580
Ffacs: 01978 269589



Ysgol Bro Alun
Delamere Avenue
Gwersyllt
Wrexham
LL11 4NG
Tel: 01978 269580
Fax: 01978 269589

YSGOL BRO ALUN

Mr Osian Jones BA
Pennaeth Head Teacher
Safle gwe / Website: www.ysgolbroalun.cymru
E-bost/E-mail: mailbox@broalun-pri.wrexham.sch.uk

Mehefin 13eg 2020

Annwyl rieni a gwarchodwyr,

Gobeithio fod pawb yn cadw'n iawn. Yn dilyn dyddiau o asesu'r galw, cynllunio ac ystyried canllawiau o wahanol gyfeiriadau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a'r AALI, rydym wedi dod i benderfyniadau ynglyn ac ail agor yr ysgol ddiwedd y mis. Gobeithio y byddant o gymorth i chi wrth wneud penderfyniad terfynol os ydech am yrru eich plentyn i'r ysgol cyn yr haf. Byddem wrth ein bodd yn gweld pob plentyn yn mynychu, ond deallwn a pharchwn penderfyniad rhai ohonoch i beidio gyrru eich plentyn yn ôl.

Pa blant sy'n dod mewn a phryd

Wrth ddod i benderfyniad am hyn, ymysg pethau eraill, rydym wedi gorfod cymryd i ystyriaeth nifer a maint yr ystafelloedd dosbarth, lefelau staffio, nifer uchel y plant gweithwyr allweddol sy'n mynychu (bydd y gwsanaeth gofal hwn yn parhau yn ystod y bedair wythnos a bydd niferoedd yn debygol o gynyddu erbyn amser ail agor) ac effaith y gwaith adeiladu sy'n digwydd ar faint o fuarth chwarae sydd ar gael. Dyma fydd y drefn:

Dydd Llun, Mehefin 29ain: **Dosbarth Derbyn**

Dydd Mawrth, Mehefin 30ain: **Blwyddyn 1**

Dydd Mercher, Gorffennaf 1af: **Blwyddyn 2**

Dydd Iau, Gorffennaf 2il: **Blwyddyn 2**

Dydd Llun, Gorffennaf 6ed: **Blwyddyn 3**

Dydd Mawrth, Gorffennaf 7fed: **Blwyddyn 4**

Dydd Mercher, Gorffennaf 8fed: **Blwyddyn 5**

Dydd Iau, Gorffennaf 9fed: **Blwyddyn 6**

Bore Llun, Gorffennaf 13eg: **Dosbarth Derbyn**

Dydd Mawrth, Gorffennaf 14eg: **Blwyddyn 1**

Dydd Mercher, Gorffennaf 15fed: **Blwyddyn 2**

Dydd Iau, Gorffennaf 16eg: **Blwyddyn 3**

Dydd Llun, Gorffennaf 20fed: **Blwyddyn 4**

Dydd Mawrth, Gorffennaf 21ain: **Blwyddyn 5**

Dydd Mercher, Gorffennaf 22ain: **Blwyddyn 6**

Dydd Iau, Gorffennaf 23ain: **Blwyddyn 6**

Rydym yn rhoi diwrnod ychwnegol i Flynyddoedd 2 a 6 gan fod rhain yn flynyddoedd sy'n trosglwyddo rhwng Cyfnodau Allweddol – Bl 2 o'r Cyfnod Sylfaen i Cyfnod Allweddol 2 a Blwyddyn 6 o'r cynradd i'r uwchradd.

Dosbarth Meithrin (Dryw a Robin Goch)

Mae Awdurdod Addysg Wrecsam wedi penderfynu na fydd plant Meithrin yn mynychu'r ysgol yn ystod y pedair wythnos gan nad yw addysg Feithrin yn statudol. Fe fydd plant Meithrin yn parhau i gael mynychu y ddarpariaeth gofal i blant gweithwyr allweddol.

Bydd pob dydd Gwener yn cael ei ddefnyddio i wneud glanheud trylwyr o'r ysgol ac yn gyfle i 'r athrawon weinyddu y dysgu ar lein / dysgu o bell.

Dyma yw'r drefn y bwriadwn ei dilyn. Fel efo unrhyw drefn newydd, byddwn yn asesu sut mae pethau'n mynd ac yn gwneud unrhyw newidiadau fel bo'r galw.

Isod, mae ychydig o wybodaeth gyffredinol:

- Yn anffodus, nid ydym mewn sefyllfa i fedru rhoi system yn ei lle fydd yn golygu y bydd brodyr a chwiorydd yn medru mynychu ar yr un diwrnod.
- Oriau agor yr ysgol fydd 9:00am – 3:15pm
- Ni fydd y Clwb Brecwast ar gael, heblaw am i rai sy'n mynychu fel plant gweithwyr allweddol.
- Ni fydd Clwb ar ôl Ysgol ar gael. Ni fydd hyn yn effeithio yr oriau agor ar gyfer plant gweithwyr allweddol, bydd rhain yn aros yr un fath, 8:00am – 5:00pm.
- Bydd angen i'r plant ddod â bwyd bore eu hunain efo nhw.
- Ni fydd y gegin yn darparu cinio, gan gynnwys ar gyfer plant gweithwyr allweddol, felly bydd rhaid i bob plentyn ddod â phhecyn bwyd ar gyfer cinio efo nhw.
- Bydd y plant yn bwyta eu cinio wrth eu desgiau yn y dosbarth, nid yn y neuadd.
- Bydd y plant yn cael eu rhannu i grwpiau o ddim mwy na 8 a ni fyddant yn cymysgu efo plant sydd mewn grwp arall yn yr adeilad nac ar yr iard.
- Byddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau fod plant efo rhai o'u ffrindiau yn y grwpiau.
- Bydd amseroedd chwarae a chinio wedi eu hamserleni a'u 'stagro' i'r gwahanol grwpiau.
- Ni fydd mwy na 8 o blant mewn un ystafell ddosbarth a bydd y plant yn eistedd ddwy fetr oddi wrth ei gilydd.
- Bydd ffenestri a drysau allanol y dosbarthiadau yn cael eu cadw ar agor i sicrhau rhediad o awyr iach yn y dosbarth.
- Byddwn yn gwneud cymaint o ddefnydd a phosib o'r awyr agored efo'r plant yn ystod y dyddiau maent i mewn.
- Ni allwn warantu y bydd y plant efo ei athro / athrawes / cymhorthyddion dosbarth arferol oherwydd sefyllfa staffio a'r gofyn i gadw'r grwpiau i ddim mwy nac 8.

- Byddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau fod y plant yn cadw at ofynion ymbellhau cymdeithasol o ddwy fetr gan gadw mewn côf fod hyn yn dipyn o ofyn i blant ifanc.
- Ni chaniateir dod ac unrhywbeth i'r ysgol o adref heblaw am fag, cot, cinio a diod. Bydd y plant yn cadw eu cotiau a'u bagiau efo nhw wrth eu desgiau a nid yn y cyntedd.
- Bydd pob plentyn yn cael un set o offer i'w defnyddio lle bo'n berthnasol.
- Bydd gan bob grwp fynediad i'w toiledau eu hunain a ni fydd grwp arall yn defnyddio'r toiledau hynny.
- Bydd yr ysgol wedi cael ei glanhau'n drylwyr cyn i ni ail agor Bydd y dosbarth (byrddau, chadeiriau, doleni drws ayyb) a'r toiledau yn cael eu glanhau yn gyson yn ystod y dydd gan ddefnyddio chwistrell a 'wipes' gwrth facteria.
- Yn ogystal, bydd y dosbarthiadau yn cael eu glanhau yn drylwyr ar ddiwedd pob dydd gan adran lanhau CBSW.
- Bydd y plant yn golchi eu dwylo yn gyson yn ystod y dydd, gan gynnwys cyn dod mewn, cyn mynd allan a chyn ac ar ôl bwyta gan ddefnyddio dwr a sebon, gan ddilyn y canllawiau cyhoeddus. Bydd poteli o 'sanitisers' (o leiaf 60% o alcohol) ar gael ym mhob dosbarth a thu allan i bob dosbarth yn ogystal.
- Gan ddilyn canllawiau'r Llywodraeth, ni fydd gofyn i staff na phlant wisgo mygydau na unrhyw offer PPE a ni fyddwn yn cymryd tymheredd plant wrth iddynt gyrraedd yr ysgol. Os ydech chi am yrru eich plentyn i mewn yn gwisgo unrhyw offer PPE, mae croeso i chi wneud hyn.
- **Ni ddylid gyrru unrhyw blentyn i'r ysgol os ydent yn arddangos unrhyw symptomau sy'n gysylltiedig efo Covid-19. Ni fydd unrhyw staff sy'n arddangos symptomau yn cael mynychu chwaith.**
- Os bydd plentyn yn arddangos unrhyw symptom yn ystod y dydd, byddwn yn cysylltu efo'r rhieni ar unwaith, yn dilyn canllawiau'r Llywodraeth ac yn ei hebrwng i ystafell benodol, lle bydd yn cael ei arolygu gan aelod o staff o bellter o 2 fetr nes i riant ddod i gasglu.
- Trafnidiaeth ysgol – byddwn yn cysylltu efo rhieni plant sy'n defnyddio bws / tacsï yn uniongyrchol am y trefniadau
- **Bydd trefniadau gwahanol i'r arfer ar gyfer gollwng a chasglu'r plant – byddwn yn rhannu'r manylion efo chi yn nes at yr amser.**
- Gwisg ysgol – byddem yn hoffi gweld y plant yn dod i'r ysgol yn eu dillad ysgol. Serch hynny, peidiwch a phrynu dillad ysgol newydd yn un swydd ar gyfer y diwrnodau mae'r plant i mewn os yw'r dillad presenol wedi mynd yn rhy fach, gallant ddod i mewn yn eu dillad eu hunain.
- **Gweithwyr Allweddol** – rydym yn dal wrthi yn rhoi cynlluniau terfynol yn eu lle a byddwn yn eich hysbysu o'r rhain yn fuan. Fe fydd y gwsanaeth gofal yn parhau yn ystod y bedair wythnos.
- Cofiwch mai pwrpas y bedair wythnos yma yw i "Ddod i'r Ysgol, Dal Ati i Ddysgu, Paratoi ar gyfer yr Haf a mis Medi". Ni fyddwn yn dilyn ein amserleni na'n cwricwlwm arferol gyda'r ffocws ar les y plant a chefnogi'r plant i barhau i ddysgu a pharatoi ar gyfer y posibilrwydd o gyfuniad cymysg o ddysgu yn Nhyrnor yr Hydref.

- Bydd y ddarpariaeth dysgu o bell yn parhau yn ystod y bedair wythnos ond ni fydd yr athrawon yn medru ymateb yn syth bob dydd ar lein os ydynt yn yr ysgol.
- **Am resymau amlwg, byddwn yn disgwyl i'r disgyblion fod ar eu hymddygiad gorau yn ystod y diwrnodau pan fydda nhw mewn a bydd efo ni drefn i'w dilyn os nad dyma'r achos.**
- Byddwn yn rhoi llyfryn gwybodaeth at ei gilydd ar gyfer y plant fydd yn cynnyws gwybodaeth a lluniau o sut bydd y dosbarthiadau'n edrych cyn i ni ail agor.

Cofiwch, yn hyn i gyd, iechyd, diogelwch a lles y plant a'r staff fydd ym mlaen ein meddyliau wrth roi'r cynlluniau ar waith. Rydym wrthi yn cwblhau asesiad risg trylwyr a fydd yn gorfod cael ei wirio a'i basio gan yr Awdurdod Addysg Lleol cyn i ni ail agor.

Gobeithio fod hyn yn ddefnyddiol ac o gymorth wrthi chi wneud penderfyniad i yrru eich plentyn i'r ysgol ai peidio. Anogaf chi i ddarllen dau lythyr Ian Roberts, Pennaeth Addysg Wrecsam ochr yn ochr â hwn wrth wneud penderfyniad. Byddwn yn rhoi holiadur arall ar yr app yn ystod y dyddiau nesaf er mwyn i chi roi ateb terfynol os bydd eich plentyn yn mynchu ai peidio.

Mae'r wythnos a hanner ddiwethaf wedi bod yn heriol iawn, a mae yna gyfnod heriol i ddod eto – diolch yn fawr i chi am eich amynedd a'ch cydweithrediad yn ystod y cyfnod hwn.

Osian Jones